***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 15. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 2

## TRAFODIADAU CYN-GWBLHAU

### RHAN 4

### RHEOL ISAFSWM Y GYDNABYDDIAETH

*Rheol isafswm y gydnabyddiaeth*

15 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo paragraff 7(3) neu 13(2) (trafodiadau cyn-gwblhau: caffael buddiant trethadwy, neu ei drin fel pe bai wedi ei gaffael, gan y trosglwyddai) yn gymwys.

(2) Os oes cysylltiad perthnasol rhwng partïon, yna at ddibenion paragraff 1 o Atodlen 4 ystyrir mai'r gydnabyddiaeth a roddir gan y prynwr ar gyfer testun y trafodiad tir y cyfeirir ato ym mharagraff 7(4) neu 13(2) yw'r uchaf o'r canlynol—

(a) y swm a fyddai oni bai am yr is-baragraff hwn,

(b) yr isafswm cyntaf (gweler paragraff 16), neu

(c) yr ail isafswm (gweler paragraff 17).

(3) Mae "cysylltiad perthnasol rhwng partïon" os yw'r trosglwyddai mewn perthynas â'r trafodiad cyn-gwblhau a grybwyllir ym mharagraff 7(1) neu 13(1) ("y trafodiad a weithredwyd") yn gysylltiedig â'r canlynol, neu heb fod yn gweithredu hyd braich iddynt—

(a) y trosglwyddwr mewn perthynas â'r trafodiad a weithredwyd, neu

(b) trosglwyddwr mewn perthynas â thrafodiad cyn-gwblhau—

(i) sy'n un mewn cadwyn o drafodiadau cyn-gwblhau olynol (oll ag o leiaf ran o'u testun yn gyffredin a chan gynnwys y trafodiad a weithredwyd) mewn perthynas â'r contract gwreiddiol, a

(ii) sy'n rhagflaenu'r trafodiad a weithredwyd yn y gadwyn.

(4) Pan fo'r trafodiad a weithredwyd yn drafodiad cyn-gwblhau mewn perthynas ag—

(a) contract ar gyfer trafodiad tir nad yw ei hun yn drosglwyddiad annibynnol mewn perthynas ag unrhyw gontract arall, a

(b) contract, neu ddau neu ragor o gontractau olynol, sydd ei hun neu eu hunain yn drosglwyddiadau annibynnol mewn perthynas â'r contract a grybwyllir ym mharagraff (a),

mae cyfeiriadau yn y Rhan hon o'r Atodlen hon at y "contract gwreiddiol" yn gyfeiriadau at y contract a grybwyllir ym mharagraff (a) yn unig (ac mae cyfeiriadau at y "prynwr gwreiddiol" i'w darllen yn unol â hynny).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 2 para. 15 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 15.